# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2023

Amser: 09.31 - 10.19

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13588

# O bell, Prifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Vikki Howells AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>John Griffiths AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Bethan Garwood (Dirprwy Glerc)<br>Huw Williams (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

1.2 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant, na dirprwyon. Esgusododd Peredur Owen Griffiths ei hun ar gyfer yr eitem olaf.

## 2 Diweddariad gan y Cadeirydd

2.1 Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau gyda'r Comisiynydd Safonau.

2.2 Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddigwyddiad lobïo yng Nghymru yr oedd yn bresennol ynddo ar 28 Tachwedd.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Grwpiau Trawsbleidiol a chytunodd y dylid ei osod.

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio at y Comisiynydd Safonau a chytunodd y byddai'n ymateb ar ôl gweld ymateb y Comisiynydd, pe bai angen.

## 4 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

4.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i).